**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Craffu Cymunedau

**Dyddiad y Cyfarfod:** 17 Ionawr 2013

**Aelod Arweiniol / Swyddog:** Arweinydd / Aelod Arweiniol Datblygu Economaidd

Rheolwr Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen

**Awdur yr Adroddiad:** Rheolwr Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen

**Teitl:** Y Rhyl yn Symud Ymlaen - Diweddariad

---

## 1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar Strategaeth Adfywio y Rhyl yn Symud Ymlaen.

## 2. Pam cyflwyno'r adroddiad?

Rhoi gwybodaeth ar gynnydd mewn perthynas â gweithredu Strategaeth Adfywio y Rhyl yn Symud Ymlaen, ei goblygiadau ariannol a'r cynnydd neu'r rhagolygon mewn perthynas â gwireddu manteision.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau yn cydnabod a gwneud sylwadau ar y cynnydd hyd yma a phenderfynu a fyddai unrhyw feysydd arbennig yn y Rhaglen yn elwa o archwiliad manwl.

## 4. Manylion yr adroddiad

### 4.1 Adolygu Strategaeth y Rhyl yn Symud Ymlaen

Er mwyn asesu'r strategaeth adfywio bresennol a'r prosiectau ynddi, ym mis Tachwedd 2012 ymgymerodd Bwrdd Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen â Gweithdy Adolygu Cyflawni'r Strategaeth. Mae'r adroddiad cefndir a roddwyd i'r sawl a fynychodd ynghlwm fel ***Atodiad 1 – Adolygiad i Gynllun Cyflawni y Rhyl yn Symud Ymlaen.*** Mae'r adrannau canlynol yn crynhoi'r canlyniadau o'r digwyddiad hwn.

### 4.2 Gorllewin y Rhyl

Cytunwyd y nod cyffredinol, y rhesymeg ac amcanion penodol ar gyfer elfen hon y strategaeth gan Fwrdd y Rhaglen fel y manylir yn ***Atodiad 1 – Adolygiad o Gynllun Cyflawni y Rhyl yn Symud Ymlaen.*** Y prif brosiect dan y ffrwd waith hon yw Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl – buddsoddiad sector cyhoeddus £16 miliwn i brynu eiddo a chreu parc newydd, ail-fodelu tai a datblygu safleoedd preswyl a

masnachol newydd. Mae’r holl gyllid yn ei le ac mae gwaith ar y prosiect hwn wedi cychwyn. Mae’r cynnydd allweddol yn cynnwys:

- Gorchymyn prynu gorfodol ar gyfer yr holl eiddo angenrheidiol, er bod trafodaethau i gaffael trwy gytundeb yn parhau. Ar hyn o bryd yn y cyfnod ymgynghorol ar gyfer gwrthwynebiadau.
- Cynlluniau ar gyfer y cyfnod dymchwel nesaf (ochr ogleddol Gronant Street) yn cael eu datblygu.
- Cais cynllunio i ailwampio 3 – 9 Abbey Street ar gyfer tai i deuluoedd wedi ei gyflwyno gan Gymdeithas Tai Clwyd Alyn, gyda’r cynllun i gychwyn ar y safle yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

### 4.3 Twristiaeth a’r Stribyn Arfordirol

Cytunwyd y nod cyffredinol, y rhesymeg ac amcanion penodol ar gyfer elfen hon y strategaeth gan y Bwrdd Rhaglen fel y manylir yn ***Atodiad 1 – Adolygiad o Gynllun Cyflawni y Rhyl yn Symud Ymlaen.*** Y prif brosiectau i gyflawni rhan hon y strategaeth yw:

- **Pont a Harbwr y Rhyl** – Buddsoddiad sector cyhoeddus £10 miliwn i adeiladu pont newydd eiconig i gerddwyr a beicwyr i gysylltu Llwybr Beicio Gogledd Cymru, ynghyd â datblygiadau parth cyhoeddus a busnes cysylltiedig. Mae’r cynllun hwn ar y safle a disgwylir ei gwblhau yn yr haf 2013.

- **21 – 24 Rhodfa’r Gorllewin –** cynnig i adeiladu gwesty 60 llofft a bwyty. Mae’r Partner Datblygu wedi ei ddewis ac mae’r dyluniad yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Mae gwaith dymchwel yr adeilad presennol yn cychwyn ym mis Ionawr 2013, a’r bwriad yw dechrau adeiladu yn nes ymlaen eleni (yn amodol ar ganiatâd cynllunio).

- **Cyfleusterau Arfordirol y Rhyl –** mae cyfiawnhad busnes yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i fuddsoddi mewn Canolfan Ddŵr newydd, ailwampio theatr y Pafiliwn a defnydd newydd ar gyfer Tŵr Awyr y Rhyl. Yn y camau cynnar ond byddai cyflawni’n llwyddiannus yn gweld buddsoddi £15 miliwn arall mewn cyfleusterau hamdden yn y Rhyl.

### 4.4 Manwerthu a Chanol y Dref

O ganlyniad i’r heriau lluosog a wynebu gan ganol y dref, mae Bwrdd y Rhaglen wedi cymeradwyo gwaith pellach i ddatblygu’r strategaeth ar gyfer elfen hon y strategaeth gyffredinol. Oherwydd hyn nid oes amcanion wedi eu cytuno eto, ond mae gweithdy ychwanegol i’w gynnal ym Mawrth 2013. Y prosiectau presennol allweddol ar gyfer elfen hon y strategaeth yw:

- **Bee & Station** – Prosiect ailwampio £1.5 miliwn i eiddo canol y dref i greu unedau swyddfa ar gyfer mentrau bach a chanolig. Mae’r cynllun hwn ar y safle a disgwylir ei gwblhau yn yr haf 2013.

- **Yr Orsaf Reilffordd –** buddsoddiad £15 miliwn wedi ei gynllunio i wella’r orsaf reilffordd, i gychwyn at ddiwedd 2013.

### 4.5 Tai a Chymdogaethau

Fel gyda chanol y dref, mae Bwrdd y Rhaglen wedi cymeradwyo gwaith pellach ar ddatblygu'r strategaeth ar gyfer elfen hon y strategaeth gyffedinol. Oherwydd hyn ni chytunwyd unrhyw amcanion eto ond maent yn cael eu datblygu fel rhan o'r syniad ehangach "byw a gweithio yn Sir Ddinbych" sy'n anelu at ddatblygu agwedd ystyrlon tuag at ddenu pobl a busnesau i leoli yn y Sir. Prosiectau presennol allweddol elfen hon y strategaeth yw:

- **Ysgol Uwchradd y Rhyl –** cynllun £25 miliwn i adeiladu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd y Rhyl.

- **Adnewyddu Ardal –** gwelliannau allanol parhaus i eiddo preswyl yn Nwyrain a Gorllewin y Rhyl.

### 4.6 Blaenoriaethu Prosiectau

Ystyriodd Gweithdy Adolygu Bwrdd y Rhaglen hefyd brosiectau cyfansoddol strategaeth gyffredinol y Rhyl yn Symud Ymlaen. Nodir y rhestr prosiectau gwreiddiol yn ***Atodiad 2 – Rhestr Prosiectau*** ac mae canlyniad y drafodaeth hon ynghlwm fel ***Atodiad 3 – Adolygu Cyflawni y Rhyl yn Symud Ymlaen.*** Mae gwaith ar flaenoriaethu prosiectau yn parhau ar y cyd â dabtlygu strwythur trefniadol newydd ar gyfer swyddogaeth adfywio'r Cyngor. Bydd hyn yn golygu y bydd, yn y dyfodol, adnoddau staffio priodol i gyflawni'r blaenoriaethau strategol a gytunwyd.

### 4.7 Adolygu Trefniadau Llywodraethu

Ynghyd ag adolygiad o'r strategaeth cafwyd adolygiad o'r trefniadau llywodraethu. Amlinellir y rhain yn ***Atodiad 4 – Bwrdd Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen – rhai cynigion ar gyfer y ffordd ymlaen.***

### 4.8 Fframwaith Rheoli Perfformiad

Cafwyd peth gwaith rhagarweiniol gyda Thîm y Cynllun Mawr i ddatblygu fframwaith rheoli perfformiad mwy cynhwysfawr ar gyfer y rhaglen, ac mae canlyniadau'r gwaith hwn ynghlwm fel ***Atodiad 5 – Fframwaith Rheoli Perfformiad.*** Wrth fynd ymlaen, datblygir y gwaith hwn ar y cyd â'r Rheolwr Ansawdd a Perfformiad Gwasanaethau Tai a Datblygu Cymunedol, a'r Rheolwr Rhaglen Uchelgais Economaidd a benodwyd yn ddiweddar.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

### 5.1: Blaenoriaeth 1 – Datblygu'r Economi Lleol a'n Cymunedau

Prif hwb Strategaeth Adfywio y Rhyl yn Symud Ymlaen yw creu mwy o swyddi a chyfleoedd busnes yn yr ardal, gan ddelio'n uniongyrchol â'r flaenoriaeth hon.

### 5.2: Blaenoriaeth 6 – sicrhau bod tai o ansawdd da ar gael

Yn benodol, bydd Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl yn cael effaith uniongyrchol ar ganlyniad blaenoriaeth *"cynnig amrywiol fathau a ffurfiau o lety … i ddiwallu anghenion unigolion a theuluoedd".*

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio gwasanaethau eraill?**

Nid oes gan y strategaeth adfywio gyffredinol gyllideb benodol. Dyrennir cyllid i brosiectau penodol, yn bennaf yn defnyddio ffynonellau ariannu allanol, ac fe gaiff y cyllid ei fonitro prosiect wrth brosiect.

**7. Pa ymgynghori a fu?**

Caiff y rhaglen ei monitro gan Fwrdd y Rhaglen, sy'n aml-asiantaeth, sy'n sicrhau bod consensws cyffredinol ynglŷn â'r agwedd a gymerir gan asiantaethau allweddol yn y Rhyl. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud i ddatbygu agwedd farchnata a chyfathrebu gryfach i sicrhau bod mwy o ymwybyddiaeth o'r strategaeth yn y gymuned. Mae gan brosiectau unigol eu strategaeth ymgynghori eu hunain.

**8. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y medrwn ei wneud i'w lleihau?**

Caiff risgiau eu monitro gan Fwrdd y Rhaglen gan ddefnyddio ***Atodiad 6 – Cofrestr Risg y Rhaglen.***

**9. Pŵer i gymryd y Penderfyniad**

Nid oes angen cymryd penderfyniad.

Mae Erthygl 6.3.4 Cyfansoddiad y Cyngor yn caniatáu i'r Pwyllgor Craffu adolygu a chraffu ar berfformiad y Cyngor a chyrff cyhoeddus eraill o ran cyflawni eu hamcanion polisi a'u gweithgareddau.

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen
Ffôn: 01824 706495